

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid held
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 27ain Mehefin, 2022 at 2.00 pm

PRESENT: County Councillor David Jones (Chairman)
County Councillor Peter Strong (Vice Chairman)

County Councillors: Louise Brown, Penny Jones, Tony Kear,
Su McConnel, Angela Sandles, Armand Watts and Laura Wright

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Matt Phillips
Nicola Perry

Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Uwch Swyddog Democratiaeth

APOLOGIES:

Councillors Tomos Davies, Meirion Howells and Maria Stevens

1. Nodi penodiad y Cynghorydd Sirol David Jones yn Gadeirydd

Nodwyd y penodiad.

2. I benodi Is-gadeirydd

Penodwyd y Cynghorydd Sir Peter Strong yn Is-gadeirydd.

3. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd datganiadau o fuddiant.

4. Adborth Sefydlu

Gwahoddwyd aelodau i fwrw golwg ar y broses sefydlu ddiweddar i alluogi swyddogion i ddysgu o'u profiadau.

Rhai pwyntiau a godwyd:

- Proses gyffredinol ragorol
- Rhai achosion o swyddogion yn 'plannu hadau arswyd' yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn y gellid ei wneud
- Byddai'n ddefnyddiol defnyddio profiad y cynghorwyr sy'n dychwelyd
- Gallai Aelodau profiadol helpu drwy sesiwn cwestiwn ac ateb
- Byddai'n ddefnyddiol i aelodau cyfetholedig dderbyn hyfforddiant

Croesawodd y Prif Swyddog Pobl a Llywodraethiant a'r Swyddog Monitro y sylwadau a gwahoddodd aelodau i gysylltu gydag ef gydag unrhyw sylwadau pellach neu sylwadau eu grwpiau.

5. Amseru Cyfarfodydd y Cyngor

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 27ain Mehefin, 2022 at 2.00 pm

Hysbyswyd Aelodau am ofyniad cyfreithiol i drafod ac argymhell i'r Cyngor amseriad cyfarfodydd y Cyngor am y Flwyddyn Ddinesig.

Cytunwyd y dylai pwyllgorau unigol gytuno ar amser eu cyfarfodydd.

Sylweddolwyd y caiff dyddiadau a'r amserau eu nodi ymlaen llaw a'u cyflwyno drwy Galendr y Cyngor. Pwysleisiwyd mai'r sefyllfa ddiofyn fyddai cydymffurfio gyda'r dyddiadau hynny.

Wrth ystyried amser cyfarfodydd y dyfodol, dywedwyd y dylid rhoi ystyriaeth i bresenoldeb swyddogion ac aelodau o'r cyhoedd.

Clywsom y bu treialon blaenorol ar wahanol amserau dechrau'r Cyngor, rhwng 10:00am, 14:00pm a 17:00pm. Gallai amser cychwyn hwyr fod yn anodd ar gyfer cyfarfodydd hir. Gallai hyn arwain at gyfarfodydd llai effeithlon, gyda llai yn mynychu, swyddogion yn gadael y cyfarfod a lefelau canolbwyntio is.

Cydnabuwyd pwysigrwydd cydbwysedd gwaith/bywyd.

Oherwydd cam cynnar y weinyddiaeth newydd, awgrymwyd bod amserau yn parhau fel y maent a'u hadolygu mewn 12 mis.

Penderfynodd y Pwyllgor argymhell:

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymhell i'r Cyngor bod cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn parhau i ddechrau am 14.00pm ac adolygu hyn mewn 12 mis.

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymhell i'r Cyngor ei fod yn parhau ar ddisgresiwn pob pwyllgor am amser dechrau'r cyfarfodydd, sy'n gweddu orau i aelodau'r pwyllgor hwnnw.

6. Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd

Esboniodd y Prif Swyddog fod yr eitem hon yn cael ei chyflwyno yn dilyn trafodaethau portffolio gyda'r Cabinet. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn rhoi gofyniad i bob awdurdod lleol greu ac wedyn ymgynghori ar Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Amlinellodd adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn 2021 strategaeth ddechreuol a gafodd gefnogaeth y Pwyllgor.

Mae'r Cynghorydd Sir Catherine Fookes, Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am ymgysylltu â'r cyhoedd, yn bwriadu dechrau Gweithgor aelodau Cabinet, ynghyd â swyddogion cyfathrebu a chynrychiolwyr Cyngor Sir Fynwy.

Gofynnwyd i Aelodau ystyried cynrychiolaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y gweithgar. Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn yr wythnos yn dechrau 11 Gorffennaf 2022.

Gofynnwyd cwestiwn os y byddai'r gweithgor yn ystyried ymgynghoriadau parhaus, a chredid y gallai fod yn broblemus gan mai rhan o gyfranogiad gyhoeddus yw ymgynghoriad. Fodd bynnag, byddai dysgu o ymgynghoriadau cyfredol a diweddar yn sylfaenol.

Dywedwyd fod annog ymgysylltu pobl iau yn allweddol i ddyfodol Cyngor Sir Fynwy.

Gwirfoddolwyd yr aelodau dilynol i fod yn aelodau o'r gweithgor:

Cynghorydd Sir Laura Wright

Cynghorydd Sir Armand Watts

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 27ain Mehefin, 2022 at 2.00 pm

Cynghorydd Sir Tony Kear
Cynghorydd Sir Angela Sandles

7. Trafod datblygiad y Flaenraglen Waith

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Louise Brown am i'r cod ymddygiad a safonau ymarfer rhwng y cyhoedd a swyddogion, y cyhoedd ac aelodau gael ei ychwanegu fel eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cafodd Amseriad Cyfarfodydd hyd Gorffennaf 2023 gael ei ychwanegu gan y Cynghorydd sir Penny Jones.

Awgrymodd y Cynghorydd Sir eitem i drafod Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.

8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Tachwedd 2021

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2021.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 26 Medi 2022 am 14:00pm

Nodwyd y dyddiad.

The meeting ended at 3.40 pm